

Cerflun o chwilen y dom mewn teml yn Karnak. Mae pobl yn credu os ydyn nhw'n cerdded o amgylch y chwilen saith gwaith, fod hyn yn dod â lwc dda iddyn nhw.



## SCARAB SWEEPERS

**Cofio'r stori hon am y scarab glanhau lonydd o Rifyn 39? Dyma fwy, gan Bethan WynJones.**



### Chwilen y tail neu chwilen y dom.

Mae chwilen y tail neu chwilen y dom, fel mae'r enw'n awgrymu, yn chwilen sy'n byw drwy fwyta tail neu faw neu dom. Mae'r chwilog yma i gyd yn perthyn i'r prif deulu *Scarabaeoidae* ac mae nifer fawr ohonyn nhw'n perthyn i'r teulu *Scarabaeidae*. Chwilen yr Aifft neu'r scarab ydi enw arall arni hi ac mae 'na dros bum mil o rywogaethau yn y teulu yma'n unig. Roedd yr Hen Eifftiaid yn addoli'r rhain, ac roedden nhw'n symbol crefyddol, cyfriniol gan yr hen Eifftiaid.

Mae rhai chwilog y dom yn cael eu hadnabod fel rhai sy'n rowlio - maen nhw'n nodedig am rowlio baw i beli bach, ac wedyn eu rowlio i ble bynnag maen nhw eisiau'r bwyd. Gwneud twneli mae rhai eraill a chladdu'r baw ble bynnag maen nhw'n cael gafael arno ac mae 'na drydydd grŵp sydd ddim yn rowlio nac yn twnelu ond yn byw yng nghanol y tail a chyn hapused â hwch mewn haidd.

Gweithwyr caled ydi'r chwilog yma ac maen nhw'n hynod o ddefnyddiol wrth ddadfeilio'r tail. Mae ganddyn nhw ddarnau o'r geg sydd wedi'u haddasu ac maen nhw'n gallu gwasgu a sugno sudd i fyny o'r tail. Maen nhw'n bwyta'r tail yn ogystal â phopeth arall sy'n byw ynddo gan gynnwys pryfed, cynrhon a larfa.

Mae'r oedolion yn hoffi'r sudd sydd mewn tail ffres, ac mae 'na nifer o organebau bach o goluddion ceffylau i'w cael yn y sudd hwn. Wrth ddatgymalu'r tail a'r pridd maen nhw'n gwella ansawdd y pridd. Wrth iddyn nhw wneud twnelau, maen nhw'n caniatáu i ddŵr ac aer

dreiddio'n ddwfn i mewn i'r pridd. Felly mae'r tail yn cael ei ailgylchu a be sydd gennych chi ar ôl ydi pridd o ansawdd da yn llawn maeth. Yn eu tro, mae chwilog y dom yn fwyd i adar a mamaliaid bach.

Mae chwilog y dom wedi addasu i fyw mewn sawl gwahanol gynefin gan gynnwys anialwch, tir fferm, coedwigoedd a dolydd, ac maen nhw i'w gweld ar bob cyfandir ag eithrio'r Antartig. Mae'r chwilog rowlio yn arbennig o ddfyfr yn fy marn i. Maen nhw'n gallu chwilio am faw drwy ei arogl, ac wedi ei leoli, maen nhw'n ei rowlio'n dwt.

Erstalwm, roedd pobl yn credu pan oedden nhw'n gweld dwy chwilen wrth ddarn o faw wedi'i rowlio eu bod nhw'n cydweithio. Mewn gwirionedd, be oedd yn digwydd oedd bod un o'r chwilog wedi gwneud y gwaith caled o ddarganfod y baw a'i rowlio, ac yna roedd y chwilen arall yn actio fel lleidr pen ffordd ac yn dwyn y bêl, fach dwt. Ambell dro, mi fedrwrch eu gweld nhw'n cwffio dros belen o faw. Maen nhw'n gallu rowlio pêl sydd 50 gwaith cymaint â'u pwysau eu hunain!

Peth arall sy'n rhyfeddol ydi eu bod nhw'n rowlio pelen o faw mewn llinell syth. Ag mae gwyddonwyr wedi darganfod fod rhai chwilog yn Affrica yn defnyddio'r lleud i rowlio'r bêl hon mewn llinell syth. Does dim rhaid i'r chwilog yma sy'n bwyta dom, baw neu dail, fwyta nac yfed dim arall am fod digon o faeth yn y tail.

Mae'r rhai sy'n rowlio hefyd yn rowlio baw er mwyn gwneud meithrinfa yn y bêl. Ar yr adegau yma, mi fydd dwy chwilen i'w gweld o gwmpas y bêl - un fenyw ac un gwryw. Ambell dro'r gwryw yn unig sy'n rowlio'r bêl a'r fenyw

yn dilyn, ond ar adegau eraill mi fydd y ddau yn rowlio'r bêl. Pan ddôn nhw ar draws darn o bridd meddal, addas, mi fyddan yn claddu'r bêl. Wedi paru, mi fydd y fenyw yn dodwy wyau y tu fewn i'r bêl ac mae digon o fwyd yn y belen hon ar gyfer eu hepil. Ambell dro, mi fydd rhywogaeth yn gadael y bêl a gadael iddyn nhw gymryd eu siawns, tra mae rhywogaethau eraill yn gwarchod eu larfa.

Ond pam fod yr Eifftiaid wedi dewis chwilen y dom o bopeth i'w haddoli? Wel, iddyn nhw roedd Ra, duw'r haul, yn bwysig dros ben ac roedd y dydd a'r haul i'w croesawu'n fawr. Ond beth oedd yn digwydd yn y nos?

Yn y nos roedden nhw'n credu mai dyma pryd roedd duw arall, Khepri, yn gwithio'r haul drwy fyd y tywyllwch nes ei fod yn cyrraedd yn ôl drannoeth i oleuo'r byd unwaith eto. Roedden nhw'n gweld hyn yn debyg i'r ffordd roedd chwilen y dom yn gweithio drwy rowlio'n bêl o faw yn gyson. A dyma sut y cysylltwyd y scarab neu chwilen yr Aifft â Khepri.

Mae lluniau chwilen yr Aifft i'w gweld mewn sawl bedd yn yr Aifft ac mae cerflun enfawr o'r chwilen mewn teml yn Karnak. Roedd cymaint o bobl yn arfer cyffwrdd â'r cerflun hwn er mwyn cael lwc dda nes bod yr awdurdodau wedi gorfod eu neilltuo drwy roi rhaffau o'i amgylch fel na all neb ei gyrraedd. Roedd ac mae'r scarab yn dal i gael eu cynhyrchu fel tlysau, a rhai ohonyn nhw hefo aur a gemwaith coeth iawn, am fod pobl yn credu fod y chwilen hon yn gallu eu diogelu rhag drygioni. Pwy fasa'n meddwl ynte fod rhywbeth mor gymhleth wedi deillio o chwilen y dom fach, ddisylw.

Bethan Wyn Jones

## Record tymheredd Porthmadog 24 Mawrth eleni

Porthmadog reached a max of 22.2C yesterday (24 Mar 2012), making it the warmest place in the UK yesterday. 22.2C also equals the highest temp for 24 Mar set back in 1918 at Hodstock Priory in Notts.

Huw Holland Jones

Dyma gofnodion y cyfnod yn 1918 o'r Tywyddiadur:

Porthmadog 20 Mawrth 1918: *In the afternoon went to Tanyrallt field to bring down some planks Weather Rain*

Dyddiadur F LI Griffith (Archifdy Gwynedd XM/1388/133)

Rhiw 22 Mawrth 1918: *Plannu tatws yn y clwt wrth gwt yr ieir.*

Dyddiadur GriffithThomas Ael y Bryn (gwefan Rhiw.com)

Porthmadog 23 Mawrth 1918: *Went to Tanyrallt fields to bring down some iron hurdles. Weather fine*

Dyddiadur F LI Griffith (Archifdy Gwynedd XM/1388/133)

Porthmadog 24 Mawrth 1918: *Summer time commenced Clock sifted [sic] forward 1 hr 2am Sunday morning*

Dyddiadur F LI Griffith (Archifdy Gwynedd XM/1388/133)

Porthmadog 25 Mawrth 1918: *Brought some wire and standards from Tanyrallt fields in the morning. Went with the guard to Menai Bridge in the afternoon. On guard 6pm until 8 Weather Grand enjoyed myself alright Weather fine.*

Dyddiadur F LI Griffith



Dyddiad marc post ar y cefn 1920 (yr 'union' flwyddyn yn aneglur). Bu'n rhaid gwarchod y "tube" (rhag terfysgwyr Gwyddelig neu elynion Y Rhyfel?) yn ôl dyddiadur F LI Griffith

Norfolk 26 Mawrth 1918: *There were already four eggs [bittern] which in March, implies early breeding, but the weather, which had been warm with only one frosty night, may have had some influence.*

British Birds Ebrill 1919

Porthmadog 26 Mawrth 1918: *On guard 12am until 2[pm] Heavy frost in the evening Weather Grand*

Dyddiadur F LI Griffith (Archifdy Gwynedd XM/1388/133)

Rhiw 30 Mawrth 1918: *Bwrw glaw. Mynd a'r defaid i'r Comins.*

Dyddiadur Griffith Thomas, Ael y Bryn, gwefan Rhiw.com

Porthmadog 31 Mawrth 1918: *Weather wet*

Dyddiadur F LI Griffith

## Mwy am drowyntoedd yn y gwair

...neu awel dro, yn iaith Llanddewibrefi.

Mam - ych chi'n cofio beth oedd hanes Wncwl Glyn am hyn - helm o wair wedi'i chodi o Gwmdulas a'i gollwng ym mlaen Cwm Twrch, neu gwair yn dod yn y gwynt a chlywed wedyn bod helm wedi'i chodi o Gwm Twrch? Ac o le - Waun Cynydd? Blaen Twrch?

Ta beth - pellter o 4-5 km Gwyn Williams

Beth yn union yw "helm" yn eich iaith chi? Dwi'n cymryd mai tas rwy'ti'n feddwl (rick, stack) yn hytrach na Dutch barn (helm yw hwnnw hefyd i ni ond mi fasa hwnnw'n golygu gwynt mawr iawn!!).[Gol.]

helm - peth crwn; tas - peth sgwar am wn i,... gwell gofyn i ffarmwr rywbryd?!

[Gwyn]

## Syfi moch

Wedi i mi ddarllen y rhifyn diweddaraf o Llên Natur [rifyn 49] deuthum ar draws y dywediad bach difyr yma tra'n cerdded yn ardal Craigcefnparc - "Fel syfien ym mola hwch"- sef ymadrodd i ddisgrifio rhywbeth/neu amgylchiad dibwys. Mae'n debyg bod syfi yn tyfu'n drwch yn ardal Craigcefnparc yn ystod y 1940au. Newydd fod yn pori drwy lyfr Henry Halford Vaughan "*Welsh Proverbs with English Translations*" ac mae'r ymadrodd yno! Mae wedi ei gyfieithu fel hyn; "*The strawberry had lost its way / In the sow's stomach it lay*"

Dewi Lewis

[Cymryd mai mefys *strawberry* ydi syfi? Mae'n fatgoffa o "*feeding strawberries to a donkey*" neu "perlau o flaen moch" sef rhoi rhywbeth amheuthun i'r sawl sydd ddim yn ei werthfawrogi. Ydi hynny'n ddehongliad posib tybed? Gol.]

## Mwy am gampau 'Narsisistaid' yr adar



Yn y rhifyn diwethaf cawsom stori am ji-binc yn gwneud ei gampau o flaen y drych. Dyma'r ymateb gawsom....

oddiwrth Gareth Pritchard (gan ddymuno pob gwellhad iddo) a chyfaill y mae ei (h)enw wedi mynd yn angof!



## Mwy am Gilfechydd

Roedd gennyf ddi-ddordeb yn esboniad Guto Rhys o'r enw 'Cilfechydd' yn rhifyn diweddaraf Llên Natur. Fel y dywed, mae'n beth cyffredin iawn cael 'cil' + enw priod (neu, yn wir, enw cyffredin, fel yn enw 'Cilgwythwch', Llanrug). Mae'n wir hefyd fod 'cilfechydd' yn ffurf luosog bur anghyffredin ar 'cilfach'. Mae Guto yn amlwg wedi codi ei enghreifftiau o Eiriadur Prifysgol Cymru. Ond nid yw hynny'n golygu nad oes yna enghreifftiau eraill o'r ffurf. Fel mae'n digwydd, yr oedd ty o'r enw Tyddyn Cilfechydd yn Llanaelhaearn ar un adeg, felly nid yw'n unigryw. Mae'n wir y byddai'r ffurf Cil + Mechydd yn bosib. Ond pwy oedd Mechydd? Os mai Cil Mechydd yw'r ystyr, byddwn wedi disgwyl gweld yr enw wedi ei sillafu fel dau air rywbryd yn ystod ei hanes, neu gael rhyw ffurf fel 'Cilmechydd'. Mae gennyf restr hir o enghreifftiau o'r enw hwn o 1690 ymlaen a'r un yw'r ffurf bob tro, sef 'Cilfechydd', ac eithrio'r ffurf od 'Chilpechydd' yn 1796. Unwaith yn unig y gwelais yr enw wedi ei sillafu fel 'Cil Fechydd', a hynny yng Nghyfeiriadur y Cod Post yn y flwyddyn 2000 - prin y ffynhonnell fwyaf sylweddol. Fodd bynnag, y ddadl gryfaf yn erbyn yr ystyr 'Cil Mechydd' yw bod y fannod wedi ei chynnwys ym mhob enghraifft a welais rhwng 1690 a 1743 (rhyw 6 enghraifft). Yn 1690 cyfeirir at 'y Cilfechydd' a 'buarth y Cilfechydd'. Yn sicr, ni ddefnyddid y fannod yn y safle hwn os mai 'Cil Mechydd' oedd yr ystyr. Ni wyddom pa gilfachau neu gilfechydd a welodd y sawl a'i henwodd yn yr ail ganrif ar bymtheg neu cyn hynny, ond mae'n debyg ei fod wedi gweld pethau nas gwelir ar Google Maps ac nid yw syniad pawb o gilfach yr un fath.


Glenda Carr

## Tân Rhyfedd Morfa Bychan..MWY.

Digwyddodd hyn yn 1693 yr 22in o Ragfyr a'r 24in ac ar benwythnosau wedyn am beth amser. Llosgai hwn y gwair yn y tai gwair a'r bydai a'r y tir o gwmpas a byddid i'r anifeiliaid farw o fwyta ar ei ôl, hefyd yr adar a fwytai ar y tir lle bu'r tân. Math o dath tanlyd oedd yn codi o'r corsydd gwlyb tywodlyd. Fflam Lâs oedd hi ac ni wnaed unrhyw niwed i fod dynnol o'i chyffwrdd wrth drïo ei ddiffodd. Yn y nôs y digwyddid hyn ac nid yn ystod y dydd. Ffendiwyd fod swm yn amharu arno a thrwy ganu utgurn a churo drymiau a thannio gynnuau fe gyfyd y fflam i'r awyr ac ni wnaed dim niwed wedyn. Rhoddwyd y bai am hyn oll ar rhyw hen wr a fu'n byw mewn lle o'r enw Tyddyn Sion Wyn a chan ei fod wedi ei hel allan o'i dyddyn mellithiodd yr ardal. Arestwyd ef ac aethpwyd ag ef at Ystys Heddwch yn gyffiniau Chwilog ond arhosodd y cwnstabl dros nôs yn Llanystumdwyl gan feddwl cario ymlaen ar y daith y diwrnod canlynol. Yn y nôs dihangodd yr hen wr trwy y ffenest ac ni welwyd byth wedyn. Yn ddiweddar rhoddwyd enw pob ochor i bentref Pwllgoleuglas sydd rhwng Penmorfa a Thremadog. Pwllgloywlas fu ar lafar am flynyddoedd lawer gan pawb ac fe roedd cwestiynu pan ddaeth yr arwyddion allan a oedd camgymeriad, ond doedd dim, Pwllgoleulas oedd yr enw cywir. Mae'r pentref ar gyrion 'rhen draeth, cyn codi'r cob ym Mhorthmadog. Byddai'r llanw yn dod i fyny hyd at Penmorfa felly morfa gwlyb a fyddai yno pan a'i y llanw allan. Felly tybed mae pwll gwlyb oedd yma a bod nwyon yn codi o honno a flam las yn dod o honno pan danniai'r nwyon a rhoi enw i Pwllglauglas? Pwy a wyr?

Tom Jones (mwy o'r hanes yn y Tywyddiadur: chwilio Pwllgoleulas).

## Deilio'r fasarnen



Cafwyd casgliad-benthg o gyfres o ddyddiadoron gan ffermwr ALIJ (nid yw am i ni gyhoeddi ei enw) o waelod Harlech. Mae'r cofnodion yn drwyadl iawn ac mae ynddynt aml i gofnod tymorol cyson o'r gog yn canu am y tro cyntaf ar wrenol yn cyrraedd. Y math mwyaf cyson o gofnod sydd ganddo yw cyfres hir o ddyddiadau deilio UN fasarnen yng nghowrt y fferm. Gosodwyd y cofnodion hyn fel graff uchod. Mae'n awgrymu bod deilio hwyr yn cydfynd efo gwanwyn "hwyr" a deilio cynnar yn cydfynd efo gwanwyn "cynnar". Mae'r graff hefyd yn awgrymu (ond heb sail ystadegol cryf) bod y fasarnen yn tueddu i ddeilio'n gynt yn ddiweddarach (llinell yn gwyro at i lawr i'r dde).

Diolch i'r dyddiadorwr am ganiatid i gyhoeddi oes o waith trwyd, ac i Huw Holland Jones am y sylwadau ar y gwanwynau.

## Wccws....MWY

Gweld y drafodaeth ar y gair hwn. Mae gen i lyfr a enillodd gystadleuaeth yn Eisteddfod Gadeiriol Tywyn yn 1907. Cystadleuaeth enwau lleoedd. Beirniad Yr Athro Edward Anwyl, Aberystwyth. Y Llyfr: YSTYRON ENWAU ym mhlwyfi Towyn, Llangelynin, Llanegryn, Llanfihangel y Pennant, Tallyllyn a Phennal. Yn y pentref lle'm magwyd - Brynrcrug ger Tywyn, mae fferm Llwynwccws. Mi fedraf gredu eglurhad Glenda Carr. Ond, er diddordeb, dyma beth sydd yn fy llyfr: "Llwynwccws. Llygriad yw hwn o Lwyn hoccys. Yr enw Seisinig ar y llysieuyn hwn yw mallows. Hoccys bendigaid, hoccys y garddau, garden mallows. Hoccys morfa, môr hoccys, hoccys y gors, marsh mallows."

Llyr Griffiths

Nid wyf am wyro oddi wrth fy nehongliad cyntaf o ystyr 'wccws'. Mae gormod o enghreifftiau o'r ffurf a rhai eraill tebyg, nid yn unig yn Archif Melville Richards a'r enghraifft a nododd Rhian Parry, ond mewn sawl enw lle arall, i awgrymu unrhyw ystyr heblaw locws = lorwerth. Ni welais erioed enghraifft o'r enw 'hocys' heb yr 'h', felly ni allaf dderbyn 'hocys' o gwbl. Yn fy marn i, dyfalu llwyr yw cynnig 'hocys', ond roedd y math hwn o ddyfalu yn eithaf cyffredin yn 1907, pan gyhoeddwyd y traethawd y cyfeiria Llyr ato. Roedd 'iocws, wccws &c' yn eiriau hollol ddieithr a 'hocys' Nid oedd gan awduron yr adnoddau i fynd ar ol hen ddogfennau i chwilio am y ffurfiau cynharaf. Dyna oedd un o gymwynasau mawr Syr Ifor Williams, sef tantro yn erbyn y dyfalu di-sail. Yr oedd 'wccws, icws, iocws' &c yn eiriau dieithr, ond roedd 'hocys' ar y llaw arall, yn air cyfarwydd ac yn enw blodyn yn ogystal, felly dim rhyfedd i'r werin ei gplysu a'r elfen 'llwyn' er mwyn ceisio rhoi rhyw ystyr ddealladwy i'r enw.

Glenda Garr

## Mwyar slabihenj

Cofiaf y gair Slabihenge (neu Slabihenj) a arferai fy nhad ddefnyddio i ddisgrifio y mwyar mawr jwsi a fyddai yn tyfu wrth droed y llwyn drain fel arfer yng nghysgod gwair trwchus. Mae'n debyg mai cefndir y gair yw disgrifiad o faint y mwyar sef eu bod mor fawr a "Slabs i Stonehenge" wedi ei dalfyrro i "Slabihenge".

Dewi Lewis

## Planhigion Prin Brynddu

Llanfechell, Mon Ebrill 1734: *April 8: I had a present of rare flower seeds from Cousin...April 10. This evening I sowed Cowslip seed in Cae'rhyd y Gaseg, etc.*

Trans. AAS&FC 1931 (The Diary of William Bulkeley of Brynddu, Anglesey)

## Syfi

Gyda llaw wedi i mi ddarllen y rhifyn diweddaraf o Llên Natur deuthum ar draws y dywediad bach difyr yma tra'n cerdded yn ardal Craigcefnparc - "Fel syfien ym mola hwch"-sef ymadrodd i ddisgrifio rhywbeth/neu amgylchiad dibwys. Mae'n debyg bod syfi yn tyfu'n drwch yn ardal Craigcefnparc yn ystod y 1940au.

[Cymryd mai mefys *strawberry* ydi syfi gen ti? Ia. Mae'n f'atgoffa o "*feeding strawberries to a donkey*" neu "perlau o flaen moch" sef rhoi rhywbeth amheuthun i'r sawl sydd ddim yn ei werthfawrogi. Ydi hynny'n ddehongliad posib tybed?]

## Dim clem (..ond pedol)

Moelfra, Aberdaron 6 Ebrill 1896: Cael pedolau dan fy esgidiau. Robert mab y Ffridd wedi cael ei ladd wrth ddod adref o Nevin o'r show. .

Dyddiadur William Jones, Moelfra, Aberdaron

Clywais gan eraill hefyd nad arferid "clem" ym Mhen Llyn (gweler Bwletin 48). Ond o atgyfodi sylw leuan Roberts, yr awgrym yw bod clem a phedol yn ddau wahanol beth: "...Rwyn cofio, yn y pumdegau, mynd at y crydd yn NhyUchaf, Edern a holi am gael clem a phedol ar fy esgidiau hoelion mawr oeddwn yneuw gwisgo yn ddyddiol i fynd i'r ysgol gynradd".

## Cwningod Heledd



Llun: Alun Williams

Y bwt am enw'r gwningen [Bwletin 50] yn 'yn atgoffa o rywbeth glywais i yn *Loch nam Madadh yn Uibhist (Uist)* tua ugain mlynedd yn ol - rhywun yn dannod hunan-bwysigrwydd pobol *Leodhas* (Lewis) ac yn rhoi'r enghraifft o athro o fan'ny yn dyfrio disgybl *Uisteach* am 'weud

"*coinean*" ac yn ei siarsio yn hytrach i arfer "*rabaid*". Yr ergyd oedd ei bod yn amlwg i unrhyw un llai unlygeidiog na *Leodhasach* mai gair SAESNEG yw rabaid, tra bod coinean yn air pur Gwyddeleg! Diddorol ystyried ai arwydd yw hyn bod y gwningen yn newydd-ddyfodiad ar *Leodhas*? *Ar Tiriodh* does dim ond swarnogod hyd heddiw....(cf. cyfenwau Morgannwg yn yr hen ffurf - Bevan, Powell - a'r gorllewin gwledig a'i Evans, Howells mwy seisnigaid yn dynodi mai peth newydd yw steil fan hynny)

Gwyn Williams

## Cynnal Cadoedd

Soniodd Iolo a Bethan am 'lek' y Rugiar Ddu [Galwad Cynnar]. Diddorol nodi bod y llinellau canlynol i'w cael mewn cywydd canoloesol a briodolwyd i Dafydd ap Gwilym (o bosib yn ddilys). Yn un o'r cerddi llatai mae'r bardd yn annog 'Y ceiliog dewr â'r clog du' i fynd a neges i'w gariad ac yn coroni ei ddarlun o'r aderyn a'i ymddygiad fel hyn:

Dy waith yw dwywaith bob dydd  
Er eu mwyn, ieir y mynydd,  
Yn ael coed cynnal cadoedd  
A rhif gwyr, tra rhyfyg oedd.  
Yn amlwg, nid pobl ein hoes ni yw'r  
cyntaf i wirioni ar y lek! Mae'r holl gerdd  
(gyda nodiadau a diweddariad i  
Gymraeg Modern) ar gael ar y wefan  
www.dafyddapgwilym.net (Rhif 162).

Howard Williams



Llun: Alun Williams (Ebrill 2012, World's End, Llangollen)

## ...a mwy am y cadoedd

Mae tri math o deulu'r manakin yn Nhrinidad a Tobago, adar bychan lliwgar, tua maint robin, sydd yn byw yng nghanol fforestydd glaw ac felly yn hynod anodd cael lluniau da. Maent yn denu'r ieir trwy ddawnsio neu hedfan o frigrin i frigrin neu arddangos mewn 'lek' traddodiadol. Oes enw Cymraeg [ar hwn y Golden-headed Manakin]?

Llun a sylw: Alun Williams

## ...a dyma bos y mis

Tocyn llyfr £10 am yr enw Cymraeg gorau (yn nhyb y Golygydd) am Golden-headed Manakin (i gyrraedd trwy fotwm "Cysylltwch" gwefan Llên Natur erbyn 15 Mai.



Yr ateb i bos i mis diwethaf oedd teiar lori - nid armadillo!!

## Clustogau cynffon-cath

Llanfechell, 4 Mawrth 1737: *pd. 8d for 4 Bull-rush Cushions for the use of my seats in Church pd. 1d. for spinage Seeds, a mighty poor market for flesh to day at LLanvechell, there being onely 2 Lambs, & those not fit for eating.*

Dyddiadur William Bulkeley, Brynnddu, Llanfechell, Môn (gyda chaniatad Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor)

## Creyrfa Treiorwerth

Bodedern 23 Mawrth 1925: *to Holyhead. visited Heronry at Treiorwerth, Bodedern, about a dozen nests, birds came off some nests, apparently eggs but failed to climb up. Other nests looked half finished.*

Dyddiadur di-enw o Tywyn, Abergele 1922-1942

*Max Nicholson's paper from the 1928 survey lists this and Cadnant as the only heronries known to be active in Anglesey at that time*

John Marchant (Y BTO)

Daeth y greyrfa i ben yn 1986 yn ôl y son.

## Cofio Dafydd (beth am eich straeon - a'ch lluniau - chithau?)



Yn 1992 ron i'n lwcus i gael siawns i fynd allan efo Dafydd a chriw o bobl arall ar daith i Greigiau Gleision. Mi dynnais i luniau ac o'n i meddwl 'ella fasech chi'n hoffi i weld nhw?

O'r chwith: Bob Lewis, botanegwr, Ty'n y Groes, Arthur Chater (yn rhoi cwth i Sian, fy ngh i ar y pryd), Bill Condry, John Bennington, Frank Skelcey, aelodau o'r Ramblers efo ddi-ddordeb ym mhlanhigion, (ac roedd Frank yn arwain y ffordd i fyny o Lyn Crafnant), Dafydd, Maldwyn Thomas. Diwrnod arbennig iawn, *Carex capillaris*, *Dryas octopetala*, a chwmni ardderchog.

Diolch Wendy McCarthy

## Gwener, lau a'r lleuad

Planed Gwener, yr un mwyaf disglair, a Planed lau, agosaf at y lleuad.

Edrych i'r gorllewin o Drefnant, 8.15p.m., Mawrth 25.

Llun a'r hanes gan Alun Williams

## a chofiwch y trawsdaith

*A tiny speck will appear on one side of the Sun in a few weeks [6 Mehefin] and slowly traverse the solar disc for a few hours. The movement of that little black dot may seem insignificant. But it is one of the rarest sights in astronomy, an event known as a transit of Venus. Miss this one and you will have to wait until 2117 for the next.*

Robin McKie (Observer 25 Mawrth 2012)

Evch i'r Tywyddiadur a chwiliwch am "Venus" (yn anffodus mae Gwener yn rhoi pob cofnod a gafodd ei ysgrifennu ar ddydd Gwener!)

## Os nad yw e'n fawr ma' fe'n ddigon...



Arfona a Tom Jones, Golan

Dyma bryf gafodd Arfona a Tom Jones yn eu gardd ger Tremadog am y tro cyntaf erioed, er mawr syndod iddynt, ar y 15ed Ebrill eleni. Gwalchwyfyn hofrol ydio, tramorwr (yn ôl y llyfrau!) a dyma'r Golygydd yn holi ei fêts:

*Not a species I would expect, Norman, in these weather*

*conditions (end of March perhaps but not now). Bu tywydd hanner cyntaf Ebrill yn sych ond yn oeraidd iawn, gwynt main o'r chwarter dwyreiniol. Atebodd Norman: It does make you wonder if they are starting to overwinter. Diolch bod y Jones' wedi codi cwr y llen ar rhywbeth newydd!*

## Cŵn Ebrill

Dyma bennill cyntaf Y Gylfinir gan R. Williams Parry:

Dy alwad glywir hanner dydd  
Fel fflwiwt hyfrydlais uwch y rhos;  
Fel chwiban bugail a fo gudd  
Dy alwad glywir hanner nos:  
Nes clywir, pan ddwsâ dy swn  
Cyfarth dy anweledig gwn.



llun: Dewi Edwards

*"Cŵn Ebrill, 'April Dogs', is a name given in some districts to the curlews, especially when their cries are heard at night in early spring. The cry is not unpleasant, but I have known persons who shuddered at it, although they disclaimed any knowledge of the Hounds of Annwn, which formerly hunted the souls of the dead in the air."*

T. Gwynn Jones Welsh Folklore And Folk Custom yn y bennod sy'n cyfeirio at "Ghosts and other apparitions" (Diolch i Bethan Wn Jones am arwain y ffordd ar hyn).